# Cofnodion

## Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Lleoedd a Materion Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Llun, 18 Ionawr 2021 |
| Amser: | 4.00 pm |
| Bresennol: | Cynghorwyr C Evans (Cadeirydd), G Berry, M Whitcutt, I Hayat, J Richards, M Al-Nuaimi and C Ferris |
| Yn bresennol: | Meirion Rushworth (Head of Finance), Owen James (Assistant Head of Finance - Technical and Development), Amie Garwood-Pask (Senior Finance Business Partner (Budget Strategy)), Alastair Hopkins (Senior Finance Business Partner (Place & Corporate)), Paul Jones (Strategic Director - Environment and Sustainability), Rhys Cornwall (Strategic Director - Transformation and Corporate Centre), Tracey Brooks (Head of Regeneration, Investment and Housing), Gareth Price (Head of Law & Regulation) and Neil Barnett (Swyddog Llywodraethu) |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr K Critchley |

1 **Datgan diddordeb**

Dim.

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**Derbyniwyd** bod cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 5 a 19 Tachwedd 2020 yn gofnod gwir a chywir.

3 **Cyllideb 2021-22 ac Amcanestyniadau Ariannol Tymor Canolig**

Yn Bresennol:

- Paul Jones - Pennaeth Gwasanaethau'r Ddinas
- Rhys Cornwall - Pennaeth Pobl a Newid Busnes
- Meirion Rushworth - Pennaeth Cyllid
- Owen James – Pennaeth Cyllid Cynorthwyol
- Amie Garwood-Park – Uwch Bartner Busnes Cyllid

**Cyllid a Gwybodaeth nad yw'n Ymwneud â Gwasanaethau**

<u>Cynnig 9 – Amh – Cynyddu'r dreth gyngor o ragdybiaeth sylfaenol o 4% gan 1% i 5%</u>

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid drosolwg o sefyllfa'r gyllideb a oedd wedi dilyn proses debyg i flynyddoedd blaenorol. Roedd y bwlch yn y gyllideb yn £4.1 miliwn ym mis Medi y llynedd. Wedyn, roedd y swyddogion wedi ystyried cynllunio arbedion lawr i hanner miliwn erbyn i'r setliad gael ei gyflwyno, ac felly roedd y gyllideb bron wedi'i mantoli ar yr adeg hon. Roedd yr arian grant a dderbyniwyd ychydig cyn y Nadolig yn £9 miliwn yn well na'r disgwyl. Defnyddiwyd niferoedd poblogaeth fel rhan fawr o'r cyfrifiad hwn ac roedd y niferoedd a ddefnyddiwyd ar gyfer Casnewydd yn hanesyddol wedi bod yn rhy isel. Roedd hyn bellach wedi'i gywiro ac felly roeddem wedi derbyn mwy o arian eleni. Hefyd, yn hytrach na'i

gyflwyno fesul cam, cafwyd y grant yn llawn a oedd yn llawer gwell i'r Cyngor eleni. Byddai'r gyllideb derfynol yn cael ei gosod ym mis Chwefror yn dilyn adborth a dderbynnir ac a ystyrir.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Dywedodd yr Aelodau fod yr adroddiad yn nodi bod y Cyngor £9 miliwn yn well ei fyd na'r disgwyl, ond mae hefyd yn nodi "o ystyried yr holl heriau hyn, mae'n rhaid dod o hyd i o leiaf £9 miliwn arall erbyn 2025 yn seiliedig ar ragdybiaethau ac amcanestyniadau cynllunio cyfredol. Gofynnwyd wedyn a yw'r £9 miliwn hwnnw wedi dileu'r angen i ddod o hyd i arbedion pellach ac a ydym yn dal mewn sefyllfa heriol.

  Dywedwyd y bydd y Cabinet yn penderfynu beth y mae am ei wneud â'r setliadau ychwanegol a gawsom eleni. Mae nifer o bwysau cyllidebol a buddsoddiadau cyllidebol yn y dyfodol sy'n ofynnol ac y mae angen eu hystyried yn y gyllideb. Mae rhagdybiaethau wedi'u gwneud ynglŷn â beth fydd y setliadau yn y blynyddoedd i ddod, ac mae angen ystyried y rhagdybiaethau hynny cyn cyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth a chyfarfod y Cabinet ym mis Chwefror.
  Wedyn, dywedodd y Pennaeth Cyllid, yn seiliedig ar y cynnydd o 1% yn ein Grant Cymorth Refeniw (GCR) bob blwyddyn, y 4% ar y Dreth Gyngor bob blwyddyn a'r pwysau sydd eisoes wedi'u nodi yn y blynyddoedd i ddod, fod gennym y £9miliwn hwnnw o hyd. Mae'r ail ffigur o £9miliwn ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn gyd-ddigwyddiad yn unig. Dywedwyd ein bod yn dal mewn sefyllfa heriol.
  O ran cyd-destun ychwanegol, dywedwyd wrth y pwyllgor fod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn adroddiad drafft y Cabinet, ac mai'r £9miliwn yw'r bwlch yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod a soniwyd hefyd am y GCR ynghyd â'r cynnydd 1% yn y dreth gyngor bob blwyddyn. Rhagdybiaethau cynllunio yw'r rhain ac nid penderfyniadau ar hyn o bryd gan y trafodir y dyfodol. Mae'r pwysau cyllidebol a nodir yn y CATC ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn arwain at y bwlch hwnnw.

- Soniodd yr Aelodau am bwynt 1.5 adroddiad y Cabinet - **"Mae'r sector cyhoeddus wedi wynebu cyfnod hir o ostyngiadau yn y lefelau ariannu mewn termau real ers nifer o flynyddoedd ac mae gwariant craidd yn dal yn is na lefelau 2008/9, mewn termau real."** A ydym wedi gwella mewn gwirionedd o gwymp 2008?

  Dywedwyd nad ydym wedi dal i fyny o hyd. Petaem yn ystyried ein harian grant yr adeg honno, a chyda chwyddiant cynyddol i'r sefyllfa yr ydym ynddi yn awr, dyna fyddai ein lefel sylfaen ddisgwyliedig.

- Wedyn, gofynnodd yr Aelodau am bwynt 3.16 yn adroddiad y Cabinet – Mae'n cyfeirio at y ffaith bod gobaith o ran peidio â galluogi cronfeydd wrth gefn ysgolion unigol i gronni, ond ar dudalen 48 mae'n nodi bod y gostyngiad yng nghronfeydd ysgolion wrth gefn yn bryder?

  Esboniwyd bod cronfeydd wrth gefn ysgolion wedi lleihau'n sylweddol gyflym dros y tair blynedd diwethaf. Mae 4-5 ysgol uwchradd sydd â diffygion mawr unigol. Mae cronfeydd wrth gefn ysgolion ar yr ochr gadarnhaol o hyd ond nid oes fawr ddim ar ôl. Bu tanwariant eleni gan nad yw ysgolion wedi bod ar agor yn ffisegol oherwydd Covid-19. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion Cynradd yn gorwario, ond mae ganddynt gronfeydd cadarnhaol wrth gefn a bydd ganddynt gronfeydd cadarnhaol ar ôl eleni, ond mae hwn yn faes i gadw llygad arno. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo gydag ysgolion mewn diffyg i sicrhau eu bod yn cyflwyno cynlluniau adfer. Nod y Gyllideb ddrafft yw ariannu cynnydd mewn costau ysgolion y blynyddoedd nesaf. Mae cost y flwyddyn nesaf yn ansicr ond y bwriad yw cadarnhau pan fydd yn hysbys.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar bwynt 3.15 adroddiad y Cabinet sy'n nodi bod y Gyllideb ddrafft yn gwneud darpariaeth i ysgolion gael buddsoddiad o hyd at £4.9 miliwn, sy'n cynrychioli twf o 4.6% yn y gyllideb ysgolion. A yw hyn yn gynnydd sylweddol? Wedyn, gofynnodd yr Aelodau am lefel y gyllideb o'i chymharu â'r blynyddoedd diwethaf a oedd wedi gostwng trwy beidio â chynyddu'r dreth gyngor ac oherwydd llymder, a gofynnon nhw ai dyma'r rheswm yr ydym ar ei hôl hi ar hyn o bryd.

  Dywedwyd wrth yr Aelodau ei fod yn gynnydd sylweddol. Nid oedd gan y Pennaeth Cyllid y ffigurau, ond rydym wedi gweld y setliadau naill ai'n gostwng mewn termau ariannol neu'n cynyddu drwy beidio â chadw i fyny mewn termau real, sydd wedi bod yn broblem. Mae hefyd yn gysylltiedig â chynnydd yn y galw a chynnydd yn y gyllideb sy'n deillio o ddinas sy'n tyfu, er enghraifft ysgolion newydd a'r galw am fwy o ofal cymdeithasol. Nid yw'r arian grant yn cynyddu digon i dalu am ofynion y gyllideb. Eglurwyd hefyd mai cyfrifon y Cyngor sy'n cyfrif am 25% o arian y Cyngor, y GCR yw'r prif fater.

- Cynigir codi'r dreth gyngor 5%, gyda'r setliad a gyhoeddwyd byddem yn dal ag arian dros ben pe na bai'r dreth gyngor yn cael ei chodi. A fyddai'r Pennaeth Cyllid yn cefnogi hyn, neu onid yw'n ddarbodus yn economaidd?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r Cabinet fyddai'n penderfynu ar hyn. O safbwynt ariannol, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth fod gan Gasnewydd dreth gyngor is na bron pob cyngor yng Nghymru. Byddai colli blwyddyn o gynnydd yn broblem gan y byddai'n cymryd amser hir i ddal i fyny.

- Gofynnodd yr Aelodau am Amcan 10 ar dudalen 199 adroddiad y Cabinet - "**Gweithio gydag asiantaethau partner a'r trydydd sector i roi cyngor a chymorth i'r rheiny sydd â dyledion a phroblemau ariannol."** A yw'r gwasanaeth yn hyderus y bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei gwblhau erbyn y dyddiad gorffen sef 1 Mawrth 2021, ac a ellir buddsoddi rhywfaint o'r arian ychwanegol i ymgysylltu â phobl nad ydynt fel arfer yn wynebu pryderon ariannol oherwydd colli incwm?

  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth fod hwn yn ymwneud ag ôl-ddyledion y dreth gyngor, ac ar gyfer trigolion sy'n cysylltu â ni ynglŷn â'u hôl-ddyledion, mae'r Tîm Refeniw yn sicrhau, pan fo'n briodol, eu bod yn cael eu cyfeirio at asiantaethau fel Cyngor ar Bopeth. Mae trigolion hefyd yn cael gwybod am gynllun gostyngiad y dreth gyngor a sut i wirio a oes ganddynt hawl iddo.

Diolchodd y Cadeirydd i'r gwahoddedigion am fynychu.

**Gwasanaethau'r ddinas**

Cynnig 3 - STR2122/02 – Taliadau am wastraff nad yw'n wastraff y cartref yr eir ag ef i Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC)

Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau'r Ddinas nad yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn codi tâl am ddeunyddiau dan y rheoliadau gwastraff, ond y caniateir iddo godi tâl am fathau penodol o wastraff. Y cynnig yw cyflwyno tâl bach am ddwy eitem o wastraff, teiars a phlastrfwrdd.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Dywedodd yr Aelodau eu bod yn derbyn nifer o gwynion am deiars yn cael eu dympio yn eu ward ac mae'n ymddangos bod hyn yn broblem ledled y ddinas. Gwnaed sylw wedyn efallai na fyddai gosod tâl i fynd â theiars i'r CAGC yn beth doeth i'w wneud gan y gallai gynyddu tipio anghyfreithlon.

Dywedwyd wrth yr Aelodau os na chodir tâl am deiars ar y pwynt gwaredu, wedyn telir amdanynt o'u treth gyngor. Bernir bod hwn yn dâl tecach ar y rheiny sy'n cael gwared ar fwy o deiars. O ran tipio anghyfreithlon, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth mai pobl sy'n ymwneud â mathau eraill o drosedd yw'r rhain yn bennaf, fel faniau gwyn sy'n codi tâl am waredu gwastraff ond nad oes ganddynt ddyletswydd gofal briodol.
Wedyn, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth wrth y pwyllgor y bu llawer o waith goruchwylio ac erlyn eleni o ran tipio anghyfreithlon, a fydd yn bwydo i mewn i'r flwyddyn nesaf.

- A yw'r gwastraff a'r tipio anghyfreithlon ychwanegol sydd wedi cronni yn ystod y cyfnod clo wedi creu unrhyw bwysau ychwanegol ar y gyllideb a'r ffordd yr ydym yn rhedeg gwasanaethau?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gwastraff a gynhyrchir fel arfer yn y gwaith bellach yn cael ei gynhyrchu gartref, felly mae'n rhaid i'r Cyngor gynnig mwy o adnoddau i wneud y casgliadau hynny. Nid yw wedi rhoi straen ar gasgliadau sbwriel gan mai deunyddiau ailgylchadwy yw'r rhan fwyaf o'r gwastraff ychwanegol, ond mae gwastraff bwyd ychwanegol yn arbennig wedi rhoi straen ar y gyllideb. Mae cynigion y gyllideb sydd wedi'u creu ar y cyd dan y rhagdybiaeth y bydd bywyd yn dychwelyd i'r arfer rywbryd, a allai gymryd blwyddyn neu fwy ond mae'n risg os yw'r patrymau'n aros yr un fath, gan fod angen mwy o adnoddau i gyflawni casgliadau domestig.

- Mynegwyd pryder am dywydd eithafol, sy'n digwydd yn amlach. A yw'r gwasanaeth yn hyderus y bydd ganddo'r gallu a'r gallu ariannol i ddelio â'r risg gynyddol hon, ac a fyddai angen mwy o arian?

  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth fod hon yn her, yn enwedig o ran llifogydd. Un o'r pryderon yw beth gall y Cyngor ei wneud, a gall disgwyliadau'r cyhoedd o'r hyn y gall y Cyngor ei wneud ac y caniateir iddo ei wneud, fod y tu hwnt i realiti weithiau. Mae newid yn yr hinsawdd wedi cael effaith enfawr. Wedi i ni allu cynnal y systemau sydd gennym a chynnal ein hamcanestyniadau presennol, gallwn ystyried gwneud gwelliannau bach. Nid yw'n fater cyllidebol fel y cyfryw, ond mae'r digwyddiadau hyn yn aml yn ddigwyddiadau pwynt. Wedyn dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gwasanaeth bob amser yn edrych ar ffyrdd o wella.

<u>Cynnig 4 – STR2122/05 – Gwaith Stryd – Ffioedd a Thaliadau Uwch</u>
Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau'r Ddinas fod y cynnig hwn yn gynnydd sylweddol penodol ar y ffioedd a'r taliadau y mae cwmnïau dŵr/nwy/trydan yn eu talu pan fyddant yn cloddio'r ffordd. Adolygwyd hyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf a'r cynnig yw newid y taliadau fel eu bod yn unol ag awdurdodau cyfagos. Bydd yn cynhyrchu tua £20,000 o incwm.

Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw gwestiynau am y cynnig hwn.

<u>Cynnig 5 - STR2122/06 – </u>Creu maes parcio talu ac arddangos yn Mill Parade
Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau'r Ddinas fod maes parcio Mill Parade yn un o'r ychydig feysydd parcio ar briffordd sy'n weddill heb stori. Nid oedd y gwasanaeth ei hun yn rhagweld arbedion yn wreiddiol, ei fwriad oedd ceisio datrys problemau yn y maes parcio ond mae'n cynhyrchu incwm felly mae angen ymgynghori arno. Y gobaith oedd y byddai'r cynnig i greu system talu ac arddangos yn helpu i ddatrys problemau yn y maes parcio. Byddai'r ffioedd yn unol â ffioedd maes parcio Maendy.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Gwnaed sylw y gallai'r taliadau beri i ymwelwyr beidio â defnyddio’r maes parcio, a gofynnon nhw a
  allem fod yn ymwybodol o ble rydym yn gofyn i bobl barcio.

  Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oes unman i ymwelwyr barcio yng Nghanolfan Ymwelwyr y Bont Gludo, ond mae hwn yn lle delfrydol i ymwelwyr gan ei fod mor agos at y ganolfan. Byddai'n helpu i ryddhau lle i'w ddefnyddio fel maes parcio a'i atal rhag cael ei ddefnyddio fel safle dympio.

  Gofynnodd yr Aelodau a allai'r awr gyntaf o barcio fod am ddim? Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth fod yr arbedion yn seiliedig ar y taliadau hynny.

<u>Cynnig 7 - Ffioedd a thaliadau newydd yn y gwasanaethau mynwentydd</u>
Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau'r Ddinas y rhennir y ffioedd a'r taliadau yn ddau gategori. Mae'r cyntaf yn ymwneud ag angladdau iechyd y cyhoedd, sef angladdau y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor eu cynnal ar gyfer pobl sydd wedi marw na allwn olrhain eu teulu. Yn flaenorol, cafodd hyn ei roi ar gontract allanol i gontractwr preifat ond cynigir newid gweithredol fel y bydd y Cyngor yn gwneud y gwaith hwnnw ei hun. Bydd yn arbed arian ond mae'n fwy gweithredol a bydd yn gwella effeithlonrwydd.
Mae'r ail yn ymwneud â newid taliadau, gan fod rhai nad ydynt wedi'u diweddaru ers blynyddoedd. Rhoddwyd enghraifft i'r pwyllgor o gloddio prawf. Byddai hyn yn gynnydd bach mewn incwm o'i gymharu â ffioedd eraill ond ymgynghorir arno gan ei fod yn effeithio ar y cyhoedd
Mae’n incwm cymharol fach o'i gymharu â'r incwm cyffredinol a gynhyrchir o'r mynwentydd ond ymgynghorir arno gan ei fod yn effeithio ar y cyhoedd.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Gofynnodd yr Aelodau am gloddio prawf gan ofyn beth sy'n digwydd os yw cofnodion y Cyngor yn anghywir, os yw rhywun yn talu am y cloddio ac wedyn yn darganfod bod 3 o bobl mewn bedd, ond bod dim ond 2?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau na fyddai'r tâl yn cael ei godi yn yr achosion hynny.

- A yw'r taliadau gan y Cyngor yn cael eu hanfon i'r rheiny sydd mewn profedigaeth neu i'r trefnydd angladdau?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn yn dibynnu ar y trefniant. Fel arfer trefnir bargeinion drwy'r trefnydd angladdau sydd mewn cysylltiad â chwmnïau yswiriant pobl, ond gall hyn amrywio.

Diolchodd y Cadeirydd i'r gwahoddedigion am fynychu.

**Adfywio, Buddsoddi a Thai**
<u>Cynnig 8 - RIH2122/04 – </u>Gorsaf Wybodaeth yn symud i'r Amgueddfa a'r Llyfrgell <u>Ganolog</u>
Dywedodd y Pennaeth Adfywio, Buddsoddi a Thai fod y penderfyniad i adleoli'r Orsaf Wybodaeth wedi'i wneud o'r blaen, felly mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r arbedion sy'n gysylltiedig â'r symud. Nid yw'r Cyngor yn berchen ar Adeilad yr Hen Orsaf, mae'n eiddo i gwmni o'r enw Arch Co, ac mae'n rhaid i'r Cyngor dalu rhent am y Llawr Gwaelod a'r Llawr Cyntaf. Caiff yr arian a arbedir trwy beidio â thalu rhent ei ddefnyddio i dalu am y gwaith adleoli. Balans yr arbedion fyddai £117,000 drwy beidio â thalu gweddill y rhent.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y penderfyniad i adleoli'r Orsaf Wybodaeth wedi'i wneud yn 2019 a'i fod eisoes ynghlwm wrth y syniad y byddwn yn defnyddio'r Llawr Gwaelod a'r Llawr Cyntaf fel hyb rhwydweithio o fath deori, felly mae hyn yn y broses o gael ei gyflawni fel prosiect adfywio.

- Gofynnodd yr Aelodau a oes unrhyw bosibilrwydd o ddefnyddio’r lle gwag at ddiben cysylltiedig?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod proses eisoes wedi bod ar waith i sicrhau gweithredwr ar gyfer y Llawr Gwaelod. Mae swyddogion wedi bod yn siarad â'r cwmni drwy gydol y cyfnod cloi i ddeall ei sefyllfa ac i wneud yn siŵr nad yw ei ofynion wedi newid, a bod ganddo ddiddordeb o hyd yn y symud.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch yr arbedion a wneir bob blwyddyn, a ydyn nhw ar gyfer oes y brydles sydd gennym ar yr Orsaf Wybodaeth, ac a fydd yr arbedion hynny'n cael eu rhoi yn ôl i'r Llyfrgell Ganolog wedyn?

  Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth mai balans y tymor sy'n weddill, sef 7 mlynedd a hanner fydd e. Ar ôl i brydles y Cyngor ddod i ben, bydd cyfle i'r holl feddianwyr presennol drafod prydles newydd gyda'r rhydd-ddeiliad. Bu llawer o ymgysylltu ynghylch yr hyn a ddarperir yn lleoliad newydd yr Orsaf Wybodaeth ac mae'r gyllideb angenrheidiol i gyflawni'r rheiny ar waith.

- Gofynnodd yr Aelodau am Fuddsoddiad yn y Gyllideb, RIH9 – **Cyd-fenter Norse** – Mwy o daliad contract o ganlyniad i gynnydd tybiedig o 2% bob blwyddyn o 20/21 a gofynnon nhw am esboniad byr o'r taliad. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth nad oedd y manylion hyn wrth law ond y byddai'n anfon y manylion at y pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r gwahoddedigion am fynychu.

**Casgliadau – Sylwadau i’r Cabinet**
Nododd y Pwyllgor y Cynigion Cyllideb Ddrafft oedd yn berthnasol i Wasanaethau Corfforaethol a Lle a chytunodd i anfon y cofnodion at y Cabinet fel crynodeb o’r materion a godwyd.

Dymunodd y Pwyllgor wneud y sylwadau canlynol i'r Cabinet ar y Cynigion o fewn y Gwasanaethau Corfforaethol a Lle:

<u>Cynnig 3 - STR2122/02 –</u> Taliadau am wastraff nad yw'n wastraff y cartref yr eir ag ef i Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC)

- Roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai unrhyw daliadau arwain at gynnydd mewn tipio anghyfreithlon a fyddai hefyd yn faich ar y gyllideb, ac yn gobeithio bod cynllun wrth gefn ar waith rhag ofn y byddai hyn yn digwydd. Awgrymwyd y byddai buddsoddiad ychwanegol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Balchder yng Nghasnewydd i helpu gyda phryderon am y cynnydd mewn tipio anghyfreithlon ac i lanhau unrhyw fannau problemus posibl.

- Gwnaed awgrymiadau buddsoddi pellach i'r gwasanaeth gyflogi Swyddogion Gorfodi ychwanegol a gweithredu mwy o deledu cylch cyfyng mewn mannau y gwelir llawer o dipio'n anghyfreithlon ynddynt.

<u>Cynnig 5 - STR2122/06 –</u> Creu maes parcio talu ac arddangos yn Mill Parade

- Cafodd yr Aelodau sgwrs gadarn a chytunon nhw â'r cynnig i droi hwn yn faes parcio cyhoeddus, er mwyn gwella diogelwch y safle. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynglŷn â'r taliadau arfaethedig ac a fyddent yn atal ymwelwyr. Awgrymodd rhai Aelodau gynnig parcio am awr am ddim ac awgrymodd Aelodau eraill gynnig parcio am ddim drwy'r dydd ond gyda rhyw fath o gynllun talebau. Dywedodd Aelod hefyd y byddent hefyd yn croesawu barn Aelodau'r Ward.

- Cydnabu'r pwyllgor na fyddai hyn yn sicrhau incwm y CATC ac y byddai peth amser cyn i'r Bont Gludo gael ei hailagor fel atyniad i ymwelwyr. Felly, gofynnon nhw i'r Cabinet ystyried yr holl faterion hyn wrth wneud penderfyniad terfynol ar y cynnig cyllidebol hwn.

Cynnig 8 - RIH2122/04 – Gorsaf Wybodaeth yn symud i'r Amgueddfa a'r Llyfrgell Ganolog

- Canmolodd y Pwyllgor y gwasanaeth y mae'r Orsaf Wybodaeth wedi'i ddarparu i drigolion Casnewydd, ond mynegodd bryderon am golli rhai gwasanaethau wrth drosglwyddo o bosibl. Roedd y pwyllgor am ofyn am sicrwydd y byddwn yn cynnal yr ystod o wasanaethau a ddarperir wedi trosglwyddo.

Cynnig 9 – Amh – Cynyddu'r dreth gyngor o ragdybiaeth sylfaenol o 4% gan 1% i 5%

- Cydnabu'r pwyllgor y cynnig ar gyfer y cynnydd. Wedyn awgrymodd yr Aelodau ddefnyddio rhywfaint o arian o fuddsoddiadau'r dyfodol i ganolbwyntio ar ymgysylltu â phobl nad ydynt fel arfer yn wynebu pryderon ariannol oherwydd colli incwm.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm

Daeth y cyfarfod I ben am 5.45 pm